Cofnod dysgu

Mae'r cofnod dysgu yn darparu ffordd o gofnodi dysgu parhaus ar gyfer unrhyw ddigwyddiad neu weithgaredd.

Dyddiad	Beth wnaeth y plentyn neu'r person ifanc?	Pwy oedd yno?	Beth wnaethoch chi ei ddysgu am yr hyn a weithiodd yn dda?	Beth wnaethoch chi ei ddysgu am yr hyn na weithiodd yn dda?
24.3.25	Roedd Mark yn cael ei ginio.	Tri o'i ffrindiau a'r cynorthwyydd addysgu.	Roedd Mark yn mwynhau eistedd gyda'i ffrindiau. Roedd yn hoffi'r dewisiadau bwyd heddiw (pasta a sleisys ffrwythau oedd ei ffefryn) ac fe wnaeth e fwyta'r rhan fwyaf o'i bryd. Mynd i eistedd wrth y bwrdd cyn aelodau eraill ei grŵp cyfeillgarwch.	Ceisiodd roi gormod o fwyd yn ei geg, felly ceisiodd y cynorthwyydd addysgu symud ei blât fel na allai fwyta mwy o fwyd nes ei fod wedi gorffen beth oedd ganddo. Dechreuodd gynhyrfu pan ddigwyddodd hyn. Ar ôl gorffen ei ginio, roedd eisiau gadael y bwrdd ar unwaith a pheidio ag aros am ei ffrindiau.

Beth sydd angen i ni barhau i'w wneud, a beth sydd angen i ni ei newid?

- Dysgu pa fwydydd eraill y mae'n eu hoffi a chynllunio ymlaen llaw trwy edrych ar fwydlen yr wythnos er mwyn ei sicrhau y bydd rhywbeth y mae'n ei hoffi ym mhob pryd.
- Ei annog i aros cyn rhoi mwy o fwyd yn ei geg. Gallem wneud hyn ar lafar. Os nad yw hynny'n gweithio, gallem roi cynnig ar system goleuadau traffig.